# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Gorffennaf 2020

Amser: 13.30 - 16.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6424

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Delyth Jewell AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Simon White, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd iddo bennu na allai'r cyhoedd fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

1.3. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai'n gadael y cyfarfod am ryw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4. Dirprwyodd David Melding AS ar ran Mark Isherwood AS yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): sesiwn dystiolaeth 6

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
- Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
- Simon White, Pennaeth Strategaeth Tai a Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 14 Medi 2020

3.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a thrafod y materion allweddol

4.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2, ac ystyried a chytuno ar y materion allweddol.

## 5 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Trafod y materion allweddol mewn perthynas ag adroddiad COVID-19 a chydraddoldeb

5.1. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y materion allweddol ar gyfer adroddiad ynghylch COVID-19 a chydraddoldeb a chytunodd ar y materion hynny.